**ARCHWILIAD**

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (2018-2033)**

**PEN-Y-BONT AR OGWR**

---

**AGENDA**

**ar gyfer**

**Sesiwn Gwrandawiad 4 Dydd Mawrth 7 Mawrth 2023 10:00 – 17:00**

**Gwrandawiad Rhithwir**

**Mater 4: Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus – Cyflogaeth a Seilwaith**

*Mater – A yw'r strategaeth economaidd yn gydlynus ac wedi'i seilio ar broses baratoi glir a thrylwyr? A fydd yn ymdrin â'r Materion Allweddol a'r Amcanion Strategol yn effeithiol ac yn effeithlon? A yw'r polisïau'n realistig ac yn briodol yn wyneb syniadau eraill perthnasol ac ydyn nhw wedi'u seilio ar dystiolaeth drylwyr a chredadwy?*

*Cyflogaeth*

1. A yw'r Astudiaeth Sylfaen Dystiolaeth Economaidd wedi'i seilio ar dystiolaeth drylwyr a chredadwy? A yw'r canfyddiadau'n ddigonol i lywio strategaeth economaidd y Cynllun?
2. Beth yw'r prif ysgogwyr ar gyfer newid ym marchnad gyflogaeth Pen-y-bont ar Ogwr? Sut mae'r Cynllun wedi mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn?
3. Beth yw amcangyfrif y swyddi newydd a gaiff eu creu o ganlyniad i strategaeth economaidd y Cynllun? Ym mha sectorau?
4. Beth yw'r berthynas gyflogaeth drawsffiniol? Pa gyfran o'r swyddi presennol ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd wedi'u llenwi gan weithwyr o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol? Faint o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr sy'n teithio i weithio y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol? Sut mae'r symud hwn wedi'i ystyried yn y rhagolygon cyflogaeth?
5. A yw lefel y ddarpariaeth tir ar gyfer cyflogaeth a nodir ym Mholisi SP11 yn briodol?
   a) Sut cyrhaeddwyd y ffigur cyffredinol o 71.7 hectar? A oes cyflawnhad llawn am lefel y ddarpariaeth tir ar gyfer cyflogaeth ac a yw wedi'i chefnogi gan dystiolaeth drylwyr a chredadwy?
   b) A yw Polisi ENT2 yn gwahaniaethu'n glir rhwng safleoedd dyranedig ac ymrwymedig? A yw'r safleoedd yn realistig ac yn hyfyw yn economaidd? Ydyn nhw'n rhydd rhag cyfyngiad sylweddol ac yn gyflawnadwy yn ystod cyfnod y Cynllun?
   c) A yw'r hierarchaeth o safleoedd cyflogaeth yn briodol? A yw'n gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol?

d) Beth yw strategaeth y Cynllun ar gyfer dosbarthu tir ar gyfer cyflogaeth? A yw'n ystyried gofynion Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol a mentrau adfywio eraill?
e) A yw'r holl safleoedd a ddyrennir ym Mholisïau SP11 ac ENT1 wedi'u trefnu i'w datblygu at ddibenion B1, B2 a B8? Os na, a ddylai'r polisïau gael eu diwygio i wneud y defnydd a fwriedir/posibl yn glir?
f) A yw Polisi ENT3 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer datblygu cynigion cyflogaeth ar safleoedd nas dyrannwyd? A yw'n ddigon hyblyg i addasu i amgylchiadau newidiol?
g) A ddylai manylion y safleoedd cyflogaeth strategol ac anstrategol gael eu cynnwys yn yr Atodiad Gweithredu a Chyflawni?

6. A yw Polisi ENT4 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli safleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig?
7. A yw Polisi ENT5 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli datblygiad y safle Ford blaenorol ym Mhen-y-bont ar Ogwr? A ddylai gael ei gynnwys ym Mholisïau SP11 ac ENT1?
8. Sut bydd y Cynllun yn cynnal ac yn gwella cynnig twristiaeth, diwylliant a hamdden y Fwrdeistref Sirol?

*Seilwaith*

1. A yw Polisi SP10 yn darparu dull priodol o sicrhau seilwaith newydd? A yw wedi'i seilio ar dystiolaeth drylwyr a chredadwy ac a yw'n gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol?
2. A fydd Polisïau SP9 a COM9 yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer diogelu cyfleusterau cymunedol presennol a darparu rhai yn y dyfodol?
3. A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer sicrhau ymrwymiadau cynllunio? Sut byddai blaenoriaethau cystadleuol yn cael eu rheoli?